DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD CAMBRIA, PORTHAETHWY, YNYS MÔN) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Weinidogion Cymru drwy apêl ar 3 Mehefin 2021 o dan y cyfeirnod APP/L6805/A/21/3270960 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Cambria, Porthaethwy, Ynys Môn) 2021 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn: Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. Fel arall, gellir cael copïau yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1483460, neu gellir eu gweld ar lein ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 3 Tachwedd 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J Saddler

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (CAMBRIA ROAD, MENAI BRIDGE, ANGLESEY) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Welsh Ministers by appeal on 3 June 2021 with reference number APP/L6805/A/21/3270960 described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Cambria Road, Menai Bridge, Anglesey) Order 2021 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at the Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW. Alternatively, copies may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1483460, or viewed online on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 3 November 2021 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J Saddler

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)

Y darn o briffordd sydd i'w gau

Darn petryalog ei siâp o briffordd a leolir o flaen yr eiddo o'r enw 3 Bronallt, Ffordd Cambria, Porthaethwy, Ynys Môn, sy'n 11.7 o fetrau yn y man hiraf ac yn 1.3 o fetrau yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)

Length of highway to be stopped up

A rectangular shaped length of highway located in front on the property know as 3 Bronallt, Cambria Road, Menai Bridge, Anglesey, for a maximum length of 11.7 metres and a maximum width of 1.3 metres, as shown in the deposited plan as zebra hatching.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Creu 2 fan parcio oddi ar y ffordd.

SCHEDULE 2

The Development

The creation of 2 off road parking spaces.